PŴER NIWCLEAR
HORIZON
NUCLEAR POWER

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
T +44 (0) 845 300 6816

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

DATGANIAD NEWYDDION

I'W RHYDDHAU YN SYTH
Dydd Llun 10 Chwefror 2014

Horizon yn cyhoeddi manylion Cymhorthfa Agored mis Chwefror

Cynhelir Cymhorthfa Agored mis Chwefror Horizon ar ddydd Llun 17 Chwefror yn Neuadd y Pentref, Cemaes.

Mae'r digwyddiadau cymunedol misol yma yn boblogaidd, ac yn roi cyfle i bobl leol alw heibio unrhyw adeg rhwng 1pm a 7pm i drafod prosiect Wylfa Newydd gydag aelodau o dîm datblygu. Horizon. Nis oes angen trefnu apwyntiad.

Dywedodd Richard Foxhall o Horizon: "Cawsom nifer da o ymwelwyr i'n gymhorthfa yn mis Ionawr, a byddwn yn parhau gyda'n rhaglen o gymhorthfeydd hyd at ein cam cyntaf o ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn ôl yr arfer, bydd aelodau o'n hadran datblygu'r safle wrth law i sgwrsio gyda pobl leol am Wylfa Newydd, ac i wrando ar unryw adborth sydd ganddynt. Os oes gan unrhywun unryw gwestiynnau, byddwn yn hapus iawn i'w weld yn galw heibio a chyfarfod y tîm."

Bydd orsaf ynni niwclear Wylfa Newydd yn creu tua 1,000 o swyddi parhaol am sawl degawd i redeg y safle, gyda hyd at 6,000 o weithwyr yn ystod cyfnod prysuraf y gwaith adeiladu. Gwelir hefyd cyfleoedd sylweddol i fusnesau lleol i chwarae rhan yn y prosiect.

Gellir ddod o hyd i mwy o wybodaeth am gynlluniau diweddaraf Horizon a'r swyddi sydd yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd drwy ymweld a'r wefan www.horizonnuclearpower.com/hafan - ac mae'n bosibl gysylltu gyda thîm prosiect Horizon drwy ffonio'r rhif rhadffôn 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost at ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

- DIWEDD -

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Richard Foxhall - 07807 769265 neu
richard.foxhall@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

- Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Ym mis Tachwedd 2012, prynodd Hitachi Cyf o Japan y cwmni oddi wrth y cyn cyd-berchnogion RWE npower ac E.ON UK.

- Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd., (Hitachi-GE) yw darparwr technoleg ac arweinydd 'tîm cyflenwi' datblygiadau Horizon yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Hitachi Cyf sy'n berchen ar 80.01% o Hitachi-GE ac mae GE yn berchen ar 19.99%.

- Bydd datblygiadau Horizon yn Wylfa ac Oldbury yn cynrychioli buddsoddiadau gwerth biliynau o bunnoedd yn seilwaith y DU. Mae disgwyl i bob un greu hyd at 1000 o swyddi yn ystod y cyfnod gweithredu, a thua 6000 pan fydd y cyfnod adeiladu yn ei anterth.

Edrychwch ar ein gwefan: **www.horizonnuclearpower.com/hafan**